CANLLAWIAU

Canllawiau i gyrff dyfarnu ar rôl Swyddog Cyfrifol

Canllawiau i gyrff dyfarnu ynghylch rôl Swyddog Cyfrifol

Cefndir

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'n rheolau gan gynnwys y rhai y'u nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol.

Gwnaethom gynnal adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol yn 2019-20 a daethant i rym ar 1 Hydref 2020. Dywedodd cyrff dyfarnu wrthym yn ystod yr adolygiad y byddai canllawiau yn ddefnyddiol i gefnogi eu cydymffurfiad parhaus.

Felly, pwrpas y ddogfen hon ydy cefnogi cyrff dyfarnu gyda chydymffurfio. Nid bod yn ragnodol ydy'r bwriad, ac i'r perwyl hwn, cyfrifoldeb y corff dyfarnu ydy penderfynnu sut mae cydymffyrfio â'i amodau cydnabod.

Hanes y Fersiwn

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ym mis Mehefin 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth ar y ddogfen ganllaw hon, e-bostiwch y Tîm Polisi Rheoleiddio yn polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Y swyddog cyfrifol - trosolwg o'r rôl 4
3. Gofynion y rôl 5
4. Bod yn 'bwynt cyswllt awdurdodol' i ni 5
5. Bod ag awdurdod digonol 8
6. Bod yn effeithiol yn y rôl 10
7. Gwybodaeth a chanllawiau pellach 11
Atodiad 1 - Y gweithgareddau y mae swyddog cyfrifol yn eu cyflawni fel rheol 12
Atodiad 2 - Sefyllfaoedd enghreifftiol 14

1. Cyflwyniad

1.1 Canllawiau yw'r rhain ynghylch rôl y Swyddog Cyfrifol ac ysgrifennwyd y canllawiau yn bennaf ar gyfer y bobl hynny sy'n cyflawni rôl Swyddog Cyfrifol ar hyn o bryd yn un o'n cyrff dyfarnu cydnabyddedig. Wedi dweud hynny, y Corff Llywodraethu[1] sydd dal i fod yn atebol am gydymffurfiad cyffredinol, ac felly bydd y canllawiau hyn hefyd o ddiddordeb i'w aelodau yn ogystal ag Uwch Swyddogion[2] eraill o fewn y sefydliad.

1.2 Mae adran gyntaf y canllawiau hyn yn darparu trosolwg o rôl 'Swyddog Cyfrifol' cyn cyflwyno ein gofynion ar gyfer y rôl honno fel y'u nodir yn yr Amodau. Mae'r adrannau olynnol yn cynnwys bod yn bwynt cyswllt awdurdodol mnew cyfathrebiadau gyda a bod yn effeithiol yn y rôl. Rydym hefyd yn egluro perthynas y Swyddog Cyfrifol mewn perthynas â'r Corff Llywodraethu a'r Uwch Swyddogion.

1.3 Mae'r atodiadau yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y gweithgareddau nodweddiadol yr ymgymerir â hwy yn y rôl a'r enghreifftiau sy'n disgrifio'r ymddygiadau a'r camau y byddem yn eu disgwyl gan Swyddog Cyfrifol sy'n effeithiol yn ei rôl.

2. Y Swyddog Cyfrifol - Trosolwg o'r rôl

2.1 Rhaid i bob corff dyfarnu a gydnabyddir gennym ni fod â Swyddog Cyfrifol yn ei le. Cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw penodi'r Swyddog Cyfrifol a rhoi gwybod i ni, yn ysgrifenedig, pwy ydyn nhw.

2.2 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn goruchwylio, yn cynghori ac yn monitro cydymffurfiaeth y sefydliad, ond y Corff Llywodraethu sy'n parhau i fod yn atebol am gydymffurfiaeth yn gyffredinol. Bydd y Swyddog Cyfrifol a Chadeirydd y Corff Llywodraethu yn llofnodi'r datganiad cydymffurfio blynyddol.

2.3 Y Swyddog Cyfrifol yw ein prif bwynt cyswllt. Drwy dderbyn y rôl, mae'r Swyddog Cyfrifol yn cael yr awdurdod gan ei sefydliad i gyfathrebu â ni ar ran y sefydliad. Rhaid i ni allu dibynnu bod pob gohebiaeth gan y Swyddog Cyfrifol atom ni yn awdurdodol.

[1]Diffiniad J18 yr Amodau Cydnabod Safonol o'r Corff Llywodraethu yw: Pan fo'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, bwrdd cyfarwyddwyr y corff dyfarnu. Lle nad yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, unigolyn neu grŵp o bobl sydd â'r statws cyfatebol o fewn strwythur sefydliadol y corff dyfarnu.

[2]Diffiniad J18 yr Amodau Cydnabod Safonol o Uwch Swyddog yw 'Cyfarwyddwr neu Uwch Swyddog gweithredol y corff dyfarnu neu, lle nad yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, unigolyn sydd â swydd o statws cyfatebol o fewn strwythur sefydliadol y corff dyfarnu'.

3. Gofynion y rôl

3.1 Mae ein gofynion ynglŷn â rôl y Swyddog Cyfrifol wedi'u nodi yn Amodau B1.1 i B1.5 ac yn J1.8 ein telerau diffiniedig yn ein Amodau Cydnabod Safonol.

3.2 Mae Amodau B1.1 a B1.2 yn nodi'r gofynion sydd ar gyrff dyfarnu ynglŷn ag apwyntio i'r rôl Swyddog Cyfrifol. Drwy Amod B1.1 mae gofyniad ar gorff dyfarnu i gael person mewn lle i ymgymryd â'r rôl yn barhaus ac mae Amod B1.2 yn gosod gofyniad i'r corff dyfarnu ein hysbysu ni yn ysgrifenedig o enw'r person.

3.3 Yn ogystal, cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw hi i sichrau bod ei Swyddog Cyfrifol yn effeithiol yn y rôl, gan gynnwys, yn benodol, drwy sichrau bod y Swyddog Cyfrifol yn meddu ar awdurdod digonol er mwyn ymgymryd â'r rôl (B1.5). Mae mwy o wybodaeth ar awdurdod digonol yn adran 5.

3.4 Gellir crynhoi rôl Swyddog Cyfrifol yn y meysydd bras a ganlyn:

i. bod yn bwynt cyswllt awdurdodol i ni (B1.3);
ii. yn cyfathrebu â ni ynghylch yr holl weithgareddau sydd o ddiddordeb i ni, gan gynnwys, yn benodol, y rheiny a restrir yn B1.3 (a-e);
iii. yn meddu ar awdurdod digonol i gyfathrebu ar ran y corff dyfarnu a chyflawni'r rôl (B1.4-B1.5); a
iv. bod yn effeithiol yn y rôl (B1.5).

3.5 Fe fydd trosolwg gan y Swyddog Cyfrifol o'r holl feysydd a ddisgrifir yn yr Amodau, ond dydy hynny ddim yn ei atal rhag ymgymryd â gweithgareddau eraill. Gallai gweithgareddau Swyddog Cyfrifol amrywio yn dibynnu ar strwythur a maint y corff dyfarnu a ble mae'r Swyddog Cyfrifol wedi'i leoli o fewn y strwythur hynny. I gael mwy o fanylion am y gweithgareddau sydd fel rheol yn dod o dan y rhain, gweler Atodiad 1.

4. Bod yn 'bwynt cyswllt awdurdodol' i ni

4.1 Amod J1.8 yn diffinio rôl Swyddog Cyfrifol fel:

"unigolyn a benodir i weithredu fel pwynt cyswllt awdurdodol corff dyfarnu ar ran Cymwysterau Cymru."

Awdurdod i gyfathrebu â ni

4.2 Wrth gael ei benodi gan y corff dyfarnu, bydd y Swyddog Cyfrifol wedi cael awdurdod gan y corff dyfarnu i'w gynrychioli, wrth gyfathrebu â ni. Pan fyddwn yn derbyn cyfathrebiadau gan y Swyddog Cyfrifol, rhaid i ni allu dibynnu ar hynny fel rhywbeth sy'n cael ei wneud ar ran y sefydliad h.y. mae'r Swyddog Cyfrifol wedi'i awdurdodi i siarad ar ei ran (B1.4a).

4.3 Yn yr un modd, pan anfonwn unrhyw ohebiaeth at y Swyddog Cyfrifol, mae gennym hawl i gymryd bod hynny'n golygu ein bod wedi cyfathrebu â'r corff dyfarnu (B1.4b). Pan yr ydym yn cyfeirio ein gohebiaeth at y corff dyfarnu ac yn ei hanfon at y Swyddog Cyfrifol, mae gennym yr hawl i gymryd bod hynny'n golygu rydym yn ysgrifennu at y corff dyfarnu. Gyda hyn mewn golwg, ystyriwch sut yr ydych yn lledaenu a briffio'r holl bobl berthnasol yn eich sefydliad am yr hyn rydym wedi ei gyfathrebu.

Bod ar gael ac yn gallu ymateb

4.4 Wrth benodi Swyddog Cyfrifol, mae'n bwysig ystyried os oes gan y bobl hynny yr amser, yr adnoddau a'r argaeledd i ymateb yn brydlon ac ymdrin yn ddigonol â'r ohebiaeth neu'r cais am wybodaeth.

4.5 Er mwyn bodloni'n terfynau amser yn brydlon, fe all hyn olygu gweithio gyda staff ar draws eich sefydliad, gan gynnwys gwneud yn siŵr eu bod nhw'n ymwybodol o'r cyfathrebiadau ac efallai bod angen iddynt eich cefnogi chi neu gwblhau tasgau, neu ymateb yn amserol i chi ar unrhyw gais a wneir. Er enghraifft, pan fydd rhywbeth wedi digwydd, a bod angen i'r corff dyfarnu gymryd camau cyflym i weithredu, mae cydweithrediad llawn gan staff ar draws y corff dyfarnu yn caniatáu i'r Swyddog Cyfrifol gyfathrebu'n effeithiol ac yn brydlon â ni.

4.6 Os bydd digwyddiadau difrifol neu sylweddol yn digwydd, yna gallai fod angen i Swyddogion Cyfrifol fod ar gael y tu allan i oriau busnes i'r graddau sy'n rhesymol o ystyried yr amgylchiadau. Er enghraifft, lle mae effaith andwyol sylweddol yn debygol o ddigwydd neu wedi digwydd ac y bydd argaeledd y tu allan i oriau busnes yn gymorth i reoli neu liniaru effaith o'r fath.

4.7 Rydym yn deall y gallai fod angen dirprwyo rhai gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rôl i bobl eraill o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, gallai hyn olygu yn ymarferol bod aelod arall o staff yn cael y dasg o ymateb i ni am faterion gweithredol penodol fel rhai newidiadau arbennig i gronfa ddata QiW. Mae'n bwysig eich bod yn glir ynghylch unrhyw drefniadau o'r fath ac mewn achosion

o'r fath bydd y Swyddog Cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fodloni gofynion y rôl a bydd yn parhau i fod yn bwynt cyswllt ffurfiol i ni.

4.8 Efallai y bydd achosion pan fydd staff heblaw'r Swyddog Cyfrifol yn dymuno cysylltu â ni'n uniongyrchol i drafod mater. Lle mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio, mae'n bwysig bod y Swyddog Cyfrifol yn cael gwybod am gyfathrebiadau o'r fath. Pan fydd staff heblaw'r Swyddog Cyfrifol yn delio â ni ynghylch prosiectau fel diwygiadau i gymwysterau, cofiwch roi gwybod i'r Swyddog Cyfrifol fel eu bod nhw'n ymwybodol o'r gwaith o leiaf ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio neu waith yn ymwneud â safonau yn y presennol neu yn y dyfodol.

4.9 Ar gyfer absenoldebau byr a gwyliau, gwnewch yn siŵr bod systemau lleol ar waith i sicrhau bod gweithiwr llanw ar gael. Am gyfnodau hirach o absenoldeb, salwch neu wyliau, yna cofiwch ein hysbysu o newidiadau i'r pwynt cyswllt awdurdodol. Cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw sicrhau bod y rôl yn parhau i gael ei llenwi a'n bod yn cael ein hysbysu ac yn cael unrhyw fanylion cyswllt newydd yn ysgrifenedig.

Yn gallu cyfathrebu â ni ar faterion o ddidordeb i ni

4.10 Fel y pwynt cyswllt awdurdodol, fe fydd y Swyddog Cyfrifol yn cyfathrebu gyda ni ar holl weithgareddau'r corff dyfarnu sydd o ddiddordeb i ni. Mae Amod B1.3 yn darparu rhestr o'r mathau o faterion y mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifol allu cyfathrebu â ni yn eu cylch. Nid bwriad y rhestr ydy bod yn holl gynhwysol, ond yn hytrach mae'n cynnwys y canlynol, yn benodol:

a) unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y corff dyfarnu â'i amodau cydnabod;
b) gallu'r corff dyfarnu i ymgymryd â datblygu, darparu a dyfarnu ei gymwysterau yn effeithlon;
c) safonau'r cymwysterau y mae'r corff dyfarnu yn eu darparu neu'n bwriadu eu darparu;
d) unrhyw faterion perthnasol a allai effeithio ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a /neu system gymwysterau yng Nghymru; a
e) hygyrchedd cymwysterau rheoledig y mae'r corff dyfarnu wedi'u darparu, gan gynnwys ei gydymffurfiad â Chyfraith Cydraddoldeb.

4.11 Er mwyn cyfathrebu â ni ar faterion megis y rheiny, ystyriwch sut y byddwch ag oruchwyliaeth ddigonol dros yr holl gymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gennym ni, gan gynnwys datblygu, darparu a dyfarnu'r cymwysterau hyn (b uchod) yn ogystal â gosod a chynnal safonau cymwysterau (c uchod). Bydd angen i'r Swyddog Cyfrifol fod yn wybodus am weithgareddau cyfredol a

chynlluniedig eu corff dyfarnu, fel eu bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau neu effeithiau posibl ar gydymffurfio nawr ac yn y dyfodol, a materion a allai effeithio ar hyder y cyhoedd yn eu cymwysterau, neu sut y gallai'r rhain effeithio ar gyrff dyfarnu eraill sydd â chymwysterau tebyg a gynigir mewn man arall yn y system gymwysterau. Bydd Swyddog Cyfrifol yn gwybod pa gamau sy'n cael eu cymryd yn rhagweithiol i ddiogelu cydymffurfiaeth cyffredinol â'n holl ofynion. Yn yr un modd, mae'r rôl yn cynnwys y gallu i drafod cydymffurfiaeth mewn perthynas â deddfwriaeth berthnasol arall gan gynnwys materion hygyrchedd a chydraddoldeb.

4.12 Bydd angen i'r Swyddog Cyfrifol hefyd fod yn gallu cyfathrebu â ni ar unrhyw ddigwyddiadau neu ymchwiliadau o dor-amod posibl a'u goruchwylio a bydd yn rhaid iddo wybod pa gamau sydd wedi eu cymryd neu a gymerir i ymdrin â phryderon posibl neu wirioneddol. Byddwch yn cadw cofnodion a thystiolaeth am y camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r rhain. Bydd y wybodaeth hon a'r gwaith o gadw cofnodion yn bwydo i adroddiadau i'r Corff Llywodraethu ac i ni ar gydymffurfiaeth cyffredinol, gan gynnwys y datganiad cydymffurfio blynyddol.

5. Bod ag awdurdod digonol

5.1 Y Corff Llywodraethu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfiaeth y corff dyfarnu â'i amodau cydnabod ac mae'n atebol am hynny. Cyfrifoldeb y corff dyfarnu hefyd yw sicrhau bod Swyddog Cyfrifol mewn lle, bod digon o adnoddau i gyflawni'r rôl a'i fod yn effeithiol yn ei rôl. Er enghraifft trwy ddarparu digon o hyfforddiant, adnoddau, mynediad at wybodaeth, a chefnogaeth barhaus i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae sicrhau bod y Swyddog Cyfrifol yn effeithiol yn cynnwys yn benodol, sicrhau bod awdurdod digonol ganddynt i gyflawni'r rôl.

5.2 Rydym yn ymwybodol bod ein cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn wahanol iawn i'w gilydd a'u bod i gyd wedi'u trefnu'n wahanol er mwyn diwallu pob un o'u hanghenion a'u hamgylchiadau penodol eu hunain. Felly, nid ydym yn rhagnodi'r lefel, y radd na'r hynafedd y mae'n ofynnol i Swyddog Cyfrifol fod arno i fod yn effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i'n cyrff dyfarnu benderfynu beth sydd fwyaf priodol o ystyried eu cyd-destun.

5.3 Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cyfrifol fod yn aelod o'r Corff Llywodraethu na bod yn Uwch Swyddog. Ein gofyniad yw eich bod yn sicrhau bod y Swyddog Cyfrifol yn meddu ar awdurdod digonol i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

5.4 Mewn achosion lle nad yw'r Swyddog Cyfrifol yn aelod o'r uwch grŵp arweinyddiaeth nac yn aelod o'r Corff Llywodraethu / Bwrdd gwneud penderfyniadau, yna fe fydd Uwch Swyddogion y sefydliad yn chwarae rôl bwysig i sicrhau bod y Swyddog Cyfrifol yn cael ei hysbysu'n ddigonol ac yn amserol am bob mater sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni ei rôl. Yn yr un modd, fe fydd y Swyddog Cyfrifol yn chwarae ei ran drwy hysbysu Uwch Swyddogion a byrddau gwneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n effeithio ar gydymffurfiaeth.



Awdurdod digonol

5.5 Yn yr un modd, lle dydy'r Swyddog Cyfrifol ddim yn Uwch Swyddog, er mwyn cyflawni gofynion y rôl ym mha bynnag strwythur, bydd angen rhoi awdurdod digonol i'r Swyddog Cyfrifol er mwyn caniatáu iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

5.6 Mae'r canlynol yn engreifftiau yn unig i chi eu hystyried mewn amgylchiadau lle nad yw'r Swyddog Cyfrifol yn rhan o'r Corff Llywodraeth nac yn Uwch Swyddog ond mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r gwaith ar draws y sefydliad a phenderfyniadau'r byrddau amrywiol. Er enghraifft, efallai bod y Corff Llywodraethu yn gallu gwahodd y Swyddog Cyrfifol i adrodd i'r pwyllgor/ bwrdd neu awgrymu eitemau i'r agenda cyn cyfarfodydd bwrdd, neu gellid gofyn iddynt baratoi papurau briffio i aelodau fydd ar fin trafod materion a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chydymffurfiad neu'n effeithio arno. Enghraifft arall ydy lle mae'r Swyddog Cyfrifol yn cael mynediad i bapurau cyfarfodydd y Corff Llywodraeth neu yn gallu arsylwi neu gyflwyno mewn cyfarfodydd.

5.7 Yn ychwanegol at gael mynediad at wybodaeth a phenderfyniadau, mae'n bwysig bod gan y Swyddog Cyfrifol fynediad priodol trwy'r sefydliad at staff, strwythurau a systemau i allu cyflawni ei rôl yn effeithiol.

5.8 Yn ei dro, mae'n bwysig i chi ystyried fel Swyddog Cyfrifol sut eich bod yn cael mynediad ac yn uwchgyfeirio, lle bo hynny'n briodol, unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl. Bydd meithrin a datblygu cyfathrebu da a pherthynas dda yn helpu wrth i chi adrodd a rhoi sicrwydd i'r Corff Llywodraethu ar faterion cydymffurfio, gan gynnwys cynorthwyo gyda'r broses o lunio, a dilysu Datganiad Cydymffurfiaeth blynyddol y corff dyfarnu, sy'n cael ei lofnodi gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Swyddog Cyfrifol ar y cyd.

5.9 Bydd cael y cyfuniad yn iawn yn rhoi'r hyder sydd ei angen ar y Corff Llywodraethu i ymddiried yn eu Swyddog Cyfrifol i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Bydd y cydbwysedd hwn hefyd yn helpu'r Swyddog Cyfrifol i deimlo ei fod wedi cael awdurdod digonol ac wedi'i rymuso i gyflawni ei rôl yn dda.

6. Bod yn effeithiol yn y rôl

6.1 Cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw sicrhau bod y rôl yn cael ei chyflawni'n effeithiol.

6.2 Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth bellach ac engreifftiau i'ch cynorthwyo wrth fod yn effeithiol yn y rôl.

6.3 Mae gan y Swyddog Cyfrifol rôl ganolog i'w chwarae o ran diogelu cydymffurfiaeth parhaus ei gorff dyfarnu. Ystyriwch sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cael eich hysbysu am ac yn wybodus am waith a gweithgareddau'r corff dyfarnu yn ogystal â chadw'n wybodus o'r holl ofynion rheoleiddiol er mwyn bod yn effeithiol yn y rôl. Yn ogystal, ystyriwch sut y byddwch yn meddu ar oruchwyliaeth o'r gwaith ar draws y sefydliad - gwaith cyfredol ac wedi'i gynllunio - fel eich bod yn wybodus am yr hyn sy'n digwydd ac yn gallu nodi risgiau posibl i gydymffurfio er mwyn i'r sefydliad allu rheoli a lliniaru'r rheini. Gyda digon o oruchwyliaeth, byddwch yn gallu cynghori, monitro a chefnogi cydweithwyr.

6.4 Mae elfen ragweithiol yn gallu bod i'r rôl. Er enghraifft, mae Swyddog Cyfrifol yn gallu nodi risgiau posibl o anghydymffurfiaeth o flaen llaw ac yn gallu cyflwyno polisïau neu brosesau er mwyn lliniaru risgiau. Mae codi ymywbyddiaeth staff o ofynion rheoleiddiol a'u prif-ffrydio drwy'r sefydliad yn engreifftiau eraill. Drwy fod yn rhagweithiol, bydd y risg o, a digwyddiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth, yn llai tebygol o ddigwydd, ac mae Effeithiau Andwyol yn fwy tebygol o gael eu lliniaru neu eu rheoli'n effeithiol.

6.5 Yn yr un modd, gall y rôl fod yn un sy'n galluogi, lle mae'r Swyddog Cyfrifol yn cefnogi'r sefydliad i weithredu gweithgareddau a phrosiectau gyda chydymffurfiaeth wedi'i prif-ffrydio o'r cychwyn cyntaf.

6.6 Ystyriwch sut y gallwch chi fel Swyddog Cyfrifol gyfathrebu ac ymgysylltu a magu perthynas dda ar draws y sefydliad â'r staff perthnasol a'r Corff Llywodraethu. Er enghraifft, ystyriwch sut y gallwch godi ymwybyddiaeth ymhlith staff am ein gofynion rheoleiddiol, fel bod yr holl staff perthnasol yn gyfarwydd ag amodau cydnabod y sefydliad, ac yn ceisio cydymffurfio â hwy, yn barhaus. Er enghraifft, gallai deiliad y rôl gynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer

staff, paratoi papurau briffio i gefnogi penderfyniadau, a /neu ddarparu diweddariadau rheolaidd ar newidiadau i ddulliau neu ofynion rheoleiddiol.

6.7 Mae cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth yn nodwedd allweddol o'r rôl. Mae angen i'r Swyddog Cyfrifol allu rhannu a chasglu gwybodaeth yn fewnol, gyda chyrff dyfarnu eraill a gyda ni. Bydd gan Swyddog Cyfrifol effeithiol hefyd fynediad at ddata / gwybodaeth i fonitro ac ymchwilio i faterion cydymffurfio yn effeithiol, yn ogystal ag i ddarparu gwybodaeth y byddwn yn gofyn amdani, yn gywir ac yn brydlon.

6.8 Felly, i grynhoi, mae'r Swyddog Cyfrifol yn:

- gallu cael cysylltiadau gweithio agos gyda'r holl wneuthurwyr penderfyniadau allweddol perthnasol, lle bynnag y maent o fewn strwythur y corff dyfarnu;
- wybodus am waith y sefydliad, ac wedi cael ei friffio ynghylch trafodaethau'r Bwrdd / Corff Llywodraethu ac yn cael cyfle i gyfrannu ar faterion cydymffurfio i'r Corff hwnnw;
- cael ei gefnogi gan ei gydweithwyr i ddiogelu cydymffurfiaeth y corff dyfarnu â'i amodau cydnabod yn effeithiol; ac
- yn cael mynediad i holl swyddogaethau perthnasol ei sefydliad a'u data, fel eu bod yn gallu cynnal eu hymwybyddiaeth gyffredinol o gydymffurfiad parhaus ar draws y corff dyfarnu.

7. Gwybodaeth a chanllawiau pellach

7.1 Os hoffech gael gwybodaeth ychwanegol am y canllawiau hyn, cysylltwch â ni. Os ydych chi'n Swyddog Cyfrifol newydd, ac y byddech yn gwerthfawrogi canllawiau pellach, yna mae croeso i chi gysylltu â ni.

7.2 Gallwch anfon e-bost atom yn: polisi@cymwysteraucymru.org.

Atodiad 1 - Y gweithgareddau y mae Swyddog Cyfrifol yn eu cyflawni fel rheol

Yn gyffredinol, bydd y rôl yn cwmpasu'r tri maes eang canlynol:

- ymateb i, a lledaenu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â chydymffurfiad;
- monitro cydymffurfiad parhaus ac adrodd i'r Corff Llywodraethu a rheoleiddwyr; ac
- ymchwilio i bryderon neu ddigwyddiadau yn ymwneud â chydymffurfio.

Ymateb i, a lledaenu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â chydymffurfiad o fewn y corff dyfarnu ac yn allanol
• Y Swyddog Cyfrifol yw ein prif bwynt cyswllt ac felly bydd yn ymateb yn brydlon i'n ceisiadau am wybodaeth ac yn lledaenu gwybodaeth ar draws y corff dyfarnu, yn enwedig ar gydymffurfiad a safonau sy'n gysylltiedig â dylunio, cyflwyno a dyfarnu ei gymwysterau rheoledig. • Er nad ydym yn disgwyl iddynt fod â dealltwriaeth arbenigol o holl swyddogaethau, polisïau a gweithdrefnau'r corff dyfarnu, rydym yn mynnu bod y Swyddog Cyfrifol yn gallu cyfathrebu â ni ar bob mater sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth ac yn gallu ymateb i unrhyw bryderon a allai fod gennym yn hyn o beth, gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd wedi'u rhoi ar waith. • Byddan nhw'n ymwybodol o holl risgiau a nodwyd y corff dyfarnu o ran eu cydymffurfiad parhaus fel ein bod yn cael ein cadw'n ymwybodol o unrhyw bryderon parhaus neu bosibl ynghylch cydymffurfio. • Bydd y Swyddog Cyfrifol yn diweddaru'r Corff Llywodraethu (a lle mae'n briodol, ni) am risgiau, digwyddiadau, gweithgareddau a phenderfyniadau allweddol sy'n effeithio arnynt a chydymffurfiad cyffredinol y sefydliad. • Mae'r Swyddog Cyfrifol yn ein hysbysu'n ffurfiol am ddigwyddiadau posibl neu ddigwyddiadau gwirioneddol o ddiffyg cydymffurfio gan gynnwys unrhyw gamau a gymerir i liniaru effeithiau andwyol. (Neu, lle mae aelod staff arall yn ein hysbysu, fe fydd y Swyddog Cyfrifol yn ymwybodol.) • Bydd yn sicrhau bod unrhyw gamau neu gyfarwyddiadau a roddir gennym i ymdrin â meysydd pryder yn cael eu cyflawni yn unol â'n gofynion.
Bod yn gwbl ymwybodol ac wedi'i friffio ynghylch materion rheoleiddio a chydymffurfio, gan gynnwys monitro cydymffurfiad parhaus ac adrodd i'r Corff Llywodraethu a rheoleiddwyr
• Un agwedd bwysig ar y rôl yw monitro cydymffurfiaeth parhaus y corff dyfarnu â'i amodau cydnabod.

- Rhaid i'r Swyddog Cyfrifol fod yn ymwybodol o gydymffurfiaeth eu sefydliad trwy gydol y flwyddyn er mwyn bwydo'r wybodaeth hon i'r gwaith o goladu, sicrhau ansawdd a chyflwyno Datganiad Cydymffurfiad blynyddol y corff dyfarnu yn amserol.

- Mae'r Swyddog Cyfrifol yn gallu rhoi adroddiad o sicrwydd i'r Corff Llywodraethu am faterion cydymffurfio ac yn cyflwyno adroddiadau gan gynnwys ar feysydd risg a diffyg cydymffurfio.

- Bydd y Swyddog Cyfrifol yn arwyddo'r datganiad cydymffurfiad blynyddol ar y cyd â Chadeirydd y Corff Llywodraethu. Rhaid i'r datganiad gael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu (B2.2). Byddai adroddiadau yn rhoi sicrwydd e.e. ynghylch perfformiad trwy gydol y flwyddyn, asesiad cydymffurfio cyffredinol, proffil risg, yr ymatebion i'r risgiau a nodwyd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a sut y cafodd unrhyw risgiau eu trin.

Ymchwilio i bryderon neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiad

- Bydd angen i'r Swyddog Cyfrifol feddu ar awdurdod digonol i allu ymateb i unrhyw bryderon a godwn gyda'i gorff dyfarnu neu ymchwilio ymhellach iddynt.

- Bydd angen i'r Swyddog Cyfrifol allu cael gafael rhwydd ar unrhyw wybodaeth neu ddata yr ydym yn gofyn am ei gweld, a thrwy hynny sicrhau bod yr holl ohebiaeth reoleiddio gysylltiedig rhyngom yn cael ei phrosesu mewn ffordd gywir ac amserol, ac yn unol â'n gofynion.

- Bydd y Swyddog Cyfrifol hefyd yn nodweddiadol yn goruchwylio newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i brosesau neu weithdrefnau mewnol corff dyfarnu er mwyn ymdrin ag unrhyw bryderon cydymffurfio a nodwyd.

Atodiad 2 - Sefyllfaoedd enghreifftiol

Bwriedir y sefyllfaoedd enghreifftiol hyn fel canllaw i'r mathau o ymddygiadau a chamau gweithredu y byddem yn eu disgwyl gan Swyddog Cyfrifol sy'n effeithiol yn ei rôl.

<table>
<tr><th colspan="2">Enghraifft Un:</th></tr>
<tr><td colspan="2">Gwnaethom ysgrifennu at Swyddog Cyfrifol a gofyn o dan Amod B4, iddo ddweud wrthym faint o dystysgrifau y mae ei gorff dyfarnu wedi'u dyfarnu i ddysgwyr yng Nghymru.

Gwnaethom nodi ein bod am i'r data gael ei gyflwyno fel dogfen Excel ac erbyn diwedd y mis.</td></tr>
<tr><td>Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>effeithiol</u> yn y rôl</td><td>Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>aneffeithiol</u> yn y rôl</td></tr>
<tr><td>♦ Mae Swyddog Cyfrifol effeithiol yn gwbl ymwybodol o'n gofynion rheoliadol yn y maes (Amod B4), a statws y cais hwn.

♦ Mae’n darllen ein llythyr yn ofalus ac os oes amwysedd, bydd y Swyddog Cyfrifol yn cysylltu â ni er mwyn i ni egluro'r hyn sydd ei angen arnom.

♦ Mae’n gwybod â phwy i gysylltu o fewn y corff dyfarnu i gael mynediad at y data am dystysgrifau y gofynnwyd amdano.

♦ Mae’n sicrhau bod y data yn cael ei wirio am gywirdeb cyn iddo ei gyflwyno i ni.

♦ Gweithredir cyn y dyddiad cau a chyflwynir y wybodaeth yn unol â'r gofynion.</td><td>♦ Nid yw Swyddog Cyfrifol aneffeithiol yn blaenoriaethu cyfathrebiadau gennym ni ac mae hyn yn lleihau ei allu i ymateb mewn pryd i gyfathrebu o'r fath.

♦ Gallai gohebiaeth gennym ni gael ei cholli gan nad yw'r corff dyfarnu yn darparu gweithiwr llanw pan fydd Swyddog Cyfrifol i ffwrdd.

♦ Nid yw’n cysylltu â ni i drafod materion nac i ofyn am eglurhad pryd y byddai'n briodol gwneud hynny.

♦ Nid yw'r Swyddog Cyfrifol yn gwybod pwy yn fewnol sydd â mynediad i'r data y gofynnwyd amdano ac felly mae'n ei chael hi'n anodd cael y wybodaeth mewn pryd.

♦ Nid yw'r wybodaeth yn cael ei gwirio am gywirdeb ac fe'i hanfonir gan y Swyddog Cyfrifol yn cynnwys gwallau.

♦ Nid yw'r wybodaeth yn cael ei hanfon atom neu mae’n cael ei hanfon yn hwyr.</td></tr>
</table>

Enghraifft Dau:	
Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifol gyflwyno'r Datganiad Cydymffurfiad blynyddol erbyn dyddiad cau penodol.	
Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>effeithiol</u> yn y rôl	**Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>aneffeithiol</u> yn y rôl**
♦ Mae Swyddog Cyfrifol effeithiol yn gwbl ymwybodol o'n Rheolau ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cydymffurfiaeth a gofynion rheoleiddiol cysylltiedig (Amod B2). ♦ Trwy gydol y flwyddyn bydd wedi sicrhau bod ganddo ddigon o wybodaeth am unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio neu faterion a allai arwain at ddiffyg cydymffurfio. ♦ Mae ganddo broses ar waith i gasglu gwybodaeth yn ystod y flwyddyn i fod yn sylfaen i goladu'r Datganiad Cydymffurfiaeth. ♦ Cyflwynir y Datganiad Cydymffurfiaeth i'r Corff Llywodraethu i'w drafod ac os cytunir arno wedi hynny, fe'i cyd-lofnodir gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Swyddog Cyfrifol. ♦ Mae'r Datganiad Cydymffurfio yn cael ei goladu a'i wirio'n ofalus am gywirdeb gan y Swyddog Cyfrifol. ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod ganddo fynediad i'n porth cronfa ddata QiW i allu cyflwyno'r Datganiad Cydymffurfiaeth yn unol â'n Rheolau. ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn cyflwyno'r Datganiad Cydymffurfiaeth erbyn y dyddiad cau. ♦ Mae'n parhau i fod o fewn cyrraedd i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach os bydd ei hangen arnom, mewn perthynas â'r datganiad a wnaed.	♦ Nid yw Swyddog Cyfrifol aneffeithiol wedi cadw i fyny ag achosion o ddiffyg cydymffurfio neu faterion a allai arwain at ddiffyg cydymffurfio trwy gydol y flwyddyn. ♦ Nid yw'r Swyddog Cyfrifol yn cael ei friffio na'i hysbysu am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd neu sy'n parhau, a godwyd mewn adroddiadau Datganiad Cydymffurfiaeth blaenorol. ♦ Nid yw'r Swyddog Cyfrifol yn gwirio'r Datganiad Cydymffurfiaeth cyn llofnodi'r datganiad fel un cywir. ♦ Nid yw'r Swyddog Cyfrifol yn ymwybodol o'n Rheolau ac felly mae'n gofyn i aelod staff arall anfon y datganiad atom. ♦ Mae'r Datganiad Cydymffurfiaeth yn cynnwys gwallau, mae'n anghyson â data arall a gyflwynwyd neu wybodaeth sydd gennym o archwiliadau neu nid yw'n llwyddo i nodi meysydd posibl o ddiffyg cydymffurfio, neu nid yw'n rhoi adroddiad digonol ar Effeithiau Andwyol allweddol digwyddiadau. ♦ Cyflwynir y datganiad heb lofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu a/neu heb i'r Corff Llywodraethu ei weld cyn ei gyflwyno. ♦ Ni chyflwynir y datganiad erbyn y dyddiad cau. ♦ Nid yw'r Swyddog Cyfrifol ar gael i ateb unrhyw ohebiaeth a anfonir wedi hyn gennym ni.

Enghraifft Tri:	
Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu ildio cydnabyddiaeth y corff dyfarnu. **Mae Cadeirydd y Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifol ein hysbysu o'r cais i ildio.**	
Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>effeithiol</u> yn y rôl	**Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>aneffeithiol</u> yn y rôl**
♦ Mae Swyddog Cyfrifol effeithiol yn gyfarwydd â'n gofynion rheoleiddiol ar gyfer ein hysbysu o'r bwriad i ildio cydnabyddiaeth ac, o ganlyniad, yn tynnu cymwysterau yn ôl yn unol â'n gofynion rheoleiddiol cysylltiedig (Amod D6) ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn ymwneud â datblygu'r cynllun i dynnu'r cymwysterau yn ôl, neu mae'n cael ei friffio yn ei gylch. ♦ Mae'n gwneud yn siŵr bod unrhyw Effeithiau Andwyol ar ddysgwyr wedi'u nodi a'u rheoli. Pan nodir y gallai fod effaith andwyol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith. ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn ein hysbysu o'r bwriad i ildio cydnabyddiaeth ac yn gweithio gyda ni i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau'n effeithlon ac yn cydymffurfio. ♦ Mae gan y Swyddog Cyfrifol awdurdod digonol i allu cytuno ar ddyddiad ar gyfer ildio cydnabyddiaeth ac yn sicrhau ein bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion cydymffurfio. ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei monitro ar ôl ildio cydnabyddiaeth i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu uchod yn wir wedi'u cwblhau mewn dull sy'n cydymffurfio.	♦ Nid yw Swyddog Cyfrifol aneffeithiol yn ddigon agos at y Corff Llywodraethu i ddeall yn llawn y rhesymau dros ildio cydnabyddiaeth. ♦ Nid yw'n cynnal y gwiriadau cywir cyn ein hysbysu ar lafar mewn fforwm o'r corff dyfarnu am ei ddymuniad i ildio cydnabyddiaeth. ♦ Nid yw'n gwirio i weld a oes ganddynt unrhyw ddysgwyr cofrestredig yng Nghymru cyn gofyn am ildio cydnabyddiaeth a chytuno ar ddyddiad ildio.

Enghraifft Pedwar:	
Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifol yr wythnos ddiwethaf am dorri ein gofynion fel y nodir yn Amod I3 - Dyluniad a chynnwys tystysgrifau.	
Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>effeithiol</u> yn y rôl	**Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>aneffeithiol</u> yn y rôl**
♦ Mae Swyddog Cyfrifol effeithiol yn gwbl ymwybodol o Amod I3 a gofynion rheoleiddiol cysylltiedig (e.e. Amod B3 parthed ein hysbysu am ddigwyddiadau). ♦ Mae'n casglu'r holl dystiolaeth uniongyrchol sy'n ymwneud â'r digwyddiad yn ofalus. ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn briffio'r Corff Llywodraethu am y toriad a'r angen i'n hysbysu am y digwyddiad, ac yn eu hysbysu'n rheolaidd wedi hynny. ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn ein hysbysu o'r toriad ac yn gallu trafod y methiant gyda ni a pha gamau a gymerwyd ar unwaith i liniaru unrhyw Effeithiau Andwyol. ♦ Mae'n cynnal ymchwiliad neu bydd wedi dirprwyo'r dasg i bob pwrpas lle bo hynny'n briodol. ♦ Bydd y digwyddiad yn cael ei gofnodi'n gywir gan y Swyddog Cyfrifol. ♦ Bydd staff yr effeithir arnynt yn ymwybodol o ganlyniadau'r ymchwiliad a pha newidiadau sydd wedi'u hargymell i'r prosesau neu'r polisïau presennol. ♦ Mae'r digwyddiad yn cael ei gofnodi gan y Swyddog Cyfrifol i'w gynnwys wrth adrodd am y Datganiad Cydymffurfiad y flwyddyn honno. ♦ Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i grynhoi'r gwersi a ddysgwyd.	♦ Mae Swyddog Cyfrifol aneffeithiol yn methu â nodi bod ein gofynion wedi'u torri neu fod angen hysbysu Cymwysterau Cymru yn brydlon. ♦ Efallai na fydd yn gallu casglu digon o wybodaeth i allu ymateb yn bendant i'n cwestiynau uniongyrchol. Mae hyn yn arafu'r cyfathrebu rhyngom. ♦ Nid yw'r digwyddiad yn cael ei gofnodi'n gywir. ♦ Ni chynhelir ymchwiliad i'r digwyddiad. Ni ddilynir gweithdrefnau rheoli digwyddiadau mewnol. ♦ Gallai'r Swyddog Cyfrifol naill ai'n rhagofalus neu heb ganiatâd y Corff Llywodraethu ein hysbysu am y digwyddiad. ♦ Ac i'r gwrthwyneb, gallai aros yn rhy hir i'n hysbysu neu rydym yn derbyn gwybodaeth am y digwyddiad trwy ffynhonnell neu ddull arall. ♦ Ni fydd yn glir pa gamau a gymerwyd i ymdrin â'r effaith bosibl uniongyrchol neu i liniaru unrhyw Effeithiau Andwyol. ♦ Efallai y bydd pryder nad yw'r corff dyfarnu yn cydnabod effaith andwyol sylweddol bosibl y digwyddiad ac y gallai hyn effeithio'n negyddol ar hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau. ♦ Nid yw staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i brosesau neu weithdrefnau cysylltiedig sy'n bodoli ar hyn o bryd ac felly ni chymerir camau adfer ac ni wneir unrhyw welliannau.

Enghraifft Pump:	
Hysbysir y Swyddog Cyfrifol am honiadau o gamymddwyn mewn canolfannau yng Nghymru, neu gan aelodau o staff y corff dyfarnu.	
Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>effeithiol</u> yn y rôl	**Camau gweithredu, ymddygiadau a gweithgareddau sy'n awgrymu bod y Swyddog Cyfrifol yn <u>aneffeithiol</u> yn y rôl**
♦ Mae Swyddog Cyfrifol effeithiol yn gwbl ymwybodol o Amod A8 a gofynion rheoleiddiol cysylltiedig (ee Amod B3). ♦ Mae'n casglu ac yn cofnodi'r holl dystiolaeth uniongyrchol sy'n ymwneud â'r digwyddiad yn ofalus ac yn tynnu sylw'r Corff Llywodraethu ato. ♦ Mae'r swyddog wedi cael yr awdurdod i'n hysbysu (am yr achos hwn / neu am bob achos o gamymddwyn). ♦ Mae'r Swyddog Cyfrifol yn ein hysbysu ar unwaith am y camymddwyn honedig ac yn darparu diweddariadau cywir ac amserol megis ar yr ymchwiliad. ♦ Mae'n goruchwylio gweithrediad ymchwiliad priodol, sy'n cydymffurfio â'i amodau cydnabod a pholisïau a gweithdrefnau'r corff dyfarnu ei hun. ♦ Mae'n sicrhau bod gweithgareddau i atal neu liniaru Effeithiau Andwyol, neu gywiro diffyg cydymffurfio, yn cael eu cwblhau'n brydlon ac yn effeithiol. ♦ Mae'n gwerthuso risgiau newydd o gamymddwyn ac yn cymryd pob cam rhesymol i addasu polisïau a gweithdrefnau, dulliau, diwylliant a /neu gynhyrchion corff dyfarnu i leihau Effeithiau Andwyol yn y dyfodol. ♦ Mae digwyddiadau camymddwyn yn cael eu cofnodi gan y Swyddog Cyfrifol i'w gynnwys wrth adrodd ar gyfer y Datganiad Cydymffurfiad y flwyddyn honno.	♦ Mae Swyddog Cyfrifol aneffeithiol yn methu â nodi pryd mae gofynion rheoliadol yn cael eu defnyddio. ♦ Efallai na fydd yn gallu casglu digon o wybodaeth i werthuso'r digwyddiad, ein hysbysu yn brydlon, neu ddarparu diweddariadau cywir ac amserol am yr ymchwiliad. ♦ Nid yw'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Cyfrifol i ganiatáu iddo gyflwyno hysbysiadau neu ddiweddariadau am ddigwyddiadau yn brydlon. ♦ Mae'r ymchwiliad yn aneffeithiol a /neu nid yw'n cydymffurfio â gofynion rheoliadol a /neu bolisïau a gweithdrefnau'r corff dyfarnu. ♦ Ni ddilynir gweithdrefnau rheoli digwyddiadau'r corff dyfarnu mewnol. ♦ Nid yw gweithgareddau i atal neu liniaru Effeithiau Andwyol yn cael eu cwblhau'n brydlon ac /neu yn effeithiol. ♦ Nid yw'r Swyddog Cyfrifol yn cydnabod y risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, nac yn ystyried sut i leihau'r rhain. ♦ Ni chaiff gwersi eu dysgu ac ni wneir newidiadau i bolisi, gweithdrefnau, dulliau, diwylliant neu gynhyrchion y corff dyfarnu neu ni chyfathrebir newidiadau yn effeithiol ar draws y corff dyfarnu. ♦ Ni roddir adroddiad am ddigwyddiadau camymddwyn na chanfyddiadau cysylltiedig o ddiffyg cydymffurfio yn y Datganiad Cydymffurfiad blynyddol.